# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 1

RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT

*Trwyddedu*

### 20 Gofyniad person addas a phriodol

(1) Wrth benderfynu a yw person yn berson addas a phriodol i fod yn drwyddedig fel sy'n ofynnol gan adran 19(2)(a) rhaid i awdurdod trwyddedu roi sylw i'r holl faterion y mae'n eu hystyried yn briodol.

(2) Ymhlith y materion y mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi sylw iddynt y mae unrhyw dystiolaeth o fewn is-adrannau (3) i (5).

(3) Mae tystiolaeth o fewn yr is-adran hon os yw'n dangos bod y person—

(a) wedi cyflawni unrhyw drosedd sy'n ymwneud â thwyll neu anonestrwydd arall, trais, arfau tanio neu gyffuriau neu unrhyw drosedd a restrir yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (troseddau sydd â gofynion hysbysu),

(b) wedi aflonyddu ar rywun neu wahaniaethu'n anghyfreithlon yn ei erbyn ar sail unrhyw nodwedd sy'n nodwedd warchodedig o dan adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu wedi erlid person arall yn groes i'r Ddeddf honno, wrth gynnal unrhyw fusnes neu mewn cysylltiad â hynny, neu

(c) wedi torri unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith sy'n ymwneud â thai neu landlord a thenant.

(4) Mae tystiolaeth o fewn yr is-adran hon—

(a) os yw'n dangos bod unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â'r person neu a oedd yn gysylltiedig â'r person yn flaenorol (pa un ai ar sail bersonol, ar sail gwaith neu ar sail arall) wedi gwneud unrhyw un neu ragor o'r pethau hynny a nodir yn is-adran (3), a

(b) mae'n ymddangos i'r awdurdod trwyddedu bod y dystiolaeth yn berthnasol wrth ystyried a yw'r person yn berson addas a phriodol i fod yn drwyddedig.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(5) Mae tystiolaeth o fewn yr is-adran hon os yw'n dangos bod y person wedi methu yn flaenorol â chydymffurfio ag amod trwydded a roddwyd o dan y Rhan hon gan awdurdod trwyddedu.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau trwyddedu ynghylch penderfynu a yw person yn berson addas a phriodol i fod yn drwyddedig fel sy'n ofynnol gan adran 19(2)(a).

(7) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r adran hon drwy orchymyn er mwyn amrywio'r dystiolaeth y mae'n rhaid i awdurdod trwyddedu roi sylw iddi wrth benderfynu a yw person yn berson addas a phriodol i fod yn drwyddedig.